Latest News
From The School of Welsh
Summer 2011
Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

Cardiff's School of Welsh remains on top of the league



Cardiff's School of Welsh has been ranked best in Britain for Celtic Studies again this year according to *The Complete University Guide* (www.thecompleteuniversityguide.co.uk). The survey compares all universities in the UK based on numerous criteria including student satisfaction, research assessment, entry standards, and graduate prospects. Cardiff's School of Welsh has been ranked the best Celtic Studies Department in the UK.

Professor Sioned Davies, Head of the School of Welsh comments: 'I am extremely pleased with our position at the top of the league table for the second year in succession – it reflects the hard work and dedication of staff and students in the School. What is particularly pleasing is the very high score for 'entry standards' – we have raised our entry requirements year on year and are now attracting the very best students in the country, offering them a challenging and exciting degree programme. The relevance of our provision is reflected in another high score for 'graduate prospects', showing that a degree in Welsh at Cardiff University meets the needs of the current workforce. As well as providing students with a range of specific as well as transferable skills, all our final year students undertake a period of work experience, giving them the edge in the job market; indeed, many of our students have secured permanent positions in the institutions they visited as undergraduates.'

Investing in the National Sabbatical Scheme

The School of Welsh welcomes the Welsh Government's decision to invest in the National Sabbatical Scheme and is very much looking forward to contributing further to the project.

Leighton Andrews, the Welsh Government's Minister for Education and Skills, has approved more than £6 million over a period of three years to deliver the Scheme with the aim of improving the standard of teaching and learning in Welsh-medium education and training.

The School of Welsh contributed to the pilot project that began in 2005, with a team of experienced language tutors providing language courses for secondary and primary school teachers. Lowri Davies, one of the tutors, said: 'I have been working on the scheme since the beginning of the pilot period. It's a wonderful experience being able to work with such enthusiastic and hard-working teachers; I'm amazed at how committed they are to developing their skills further.'

The funding will ensure that the scheme is extended to more locations across Wales, with a wider variety of courses on several levels. Over the period, 648 lecturers, teachers and practitioners will benefit from a sabbatical period away from the workplace in order to improve their oral and written Welsh, learn how to use subject-related terminology effectively as well as increase their confidence in Welsh-medium and bilingual teaching methodologies. The School of Welsh at Cardiff University will offer provision at Entry, Foundation and Higher levels. For further details, visit our website.

www.cf.ac.uk/welsh

Welsh: Gaining skills and getting jobs

These days, employability is an extremely important factor as you decide what degree to choose and where to study. Students (and their parents) want reassurance that opting for higher education will be a wise investment for the future.

Recent statistics submitted to the Higher Education Statistics Agency show that 96% of those who graduated with a BA in Welsh from Cardiff in 2009/10 went on to employment or further study. Over the last few years former students have gone on to work for various institutions and companies such as The Welsh Language Board, Urdd Gobaith Cymru, Cardiff International Airport, The National Assembly for Wales, Literature Wales, Boomerang, translation companies such as Trosol and Prysg, St Fagans National History Museum, and Cardiff and the Vale of Glamorgan Welsh for Adults Centre.

At Cardiff, undergraduates are given the opportunity to make the most of their three years here. The degree features the module **Welsh for the Workplace**, specially tailored to meet the needs of the modern Welsh workplace. This is a challenging module which develops language skills and gives students the opportunity to go out to the world of work and get hands-on experience in a Welsh workplace. Students are also able to choose from a wide range of optional modules related to certain professions in order to meet their own specific career needs, such as **Professional Translation, Scriptwriting, Creative Writing, Welsh for Adults, Language Planning** and **Introduction to Ethnological Studies**.

Greg Snelgrove

"As part of the **Welsh for the Workplace** module, I did a week of work experience with the Merthyr Tydfil Welsh Language Centre and Initiative. This experience helped me decide to pursue a career related to language development in the community and eventually led to a full-time post as Field Officer for the same Welsh-language Initiative. It is a very exciting job and I enjoy promoting and widening use of the Welsh language in an area near to where I was brought up."

Betsan Williams

"After studying for a degree in Welsh at Cardiff University, I joined the translation company Prysg as a trainee translator. The skills I learnt while at Cardiff, specifically from the modules Translation and Communication and Welsh for the Workplace, gave me a firm footing in this role. Six years on I am a senior translator at the company and have developed and fine-tuned the skills I learnt during my degree."

Siân Teifi Morris

"After following the module **Introduction to Ethnological Studies** as part of my degree I was inspired to go on work experience to St Fagans National History Museum. I enjoyed the experience immensely, especially talking to the various curators and hearing about the archives and the vast collection held there. I enjoyed it so much I applied for a job there after graduating before later moving on to the museum's education department. I have now been in that department for a year and a half. I would recommend the module **Introduction to Ethnological Studies** to anyone interested in the heritage industry in Wales."

Focus on Research

Sulien Morgan

Sulien Morgan is following a part-time PhD course at the Cardiff Centre for Welsh American Studies which is located in the School of Welsh. His research focuses on the relationship between the Welsh in the United States and nationalism in Wales. After graduating in International Politics, followed by a period working for Plaid Cymru, he decided to return to university to embark on a research degree that would combine his interests in the field of nationalism and internationalism. In July this year he presented a paper at a conference in St Francis Xavier University in Nova Scotia, Canada on the relationship between Plaid Cymru and Welsh Americans.

Robert Bevan

Robert Bevan's research interests have a particular focus on the fluidity of local and national identities, the process of 'othering' with regards to those cultures and peoples over the border, and the negotiation of the border in everyday life. His PhD research, which he began in January 2010, examines sport as a representation of national identity in three border towns: Hay-on-Wye, Oswestry and Berwick-upon-Tweed. According to Robert 'the multifaceted expertise of staff within the School, along with financial support afforded to conduct my field research, has proven truly indispensible'.

Mair Rees

Mair Rees is about to complete her PhD under the supervision of Dr Simon Brooks and Professor Sioned Davies. The title of her thesis is *Images of Pregnancy, Menstruation and the Symbolic Female Body in Welsh-language Fiction by Women, 1948–2008*. The study uses a feminist perspective to examine how these two iconic physical experiences are discussed, along with wider symbolic use of the female body. Mair's main interest is the powerful connections that exist between embodiment and nationality, and her aim is to develop these ideas further in the future.

Fostering Relations with Centre for Learning Irish

In March 2011 Dr Diarmait Mac Giolla Chríost, Reader at the School of Welsh, visited the 'Ionad na Gaeilge Labhartha', the Centre for Learning Irish at Cork University. He was invited to Cork as one of a team of external experts, along with Professor Liam Mac Mathúna, Head of the School of Irish and Celtic Studies at University College Dublin and Pádraig Ó hAoláin, former Chief Executive of Údarás na Gaeltachta, in order to review the activity of the Centre for Learning Irish.

Dr Mac Giolla Chríost was the only member of the team from outside Ireland; he was invited because of his expertise in the field of Irish together with his contribution to a current research project which examines how Welsh is taught to adults. The project is funded by the Welsh Government; last year the School of Welsh (which includes the Cardiff and Vale of Glamorgan Welsh for Adults Centre) received a grant of more than £300,000 to conduct research in this area for a period of two years.

The visit was an opportunity for Dr Mac Giolla Chríost to discuss the project informally, whilst fostering relations and sharing good practice with the Centre for Learning Irish at Cork University.

Y Gŵr Cadarn on DVD

A performance of one of the earliest plays in the Welsh language is now available on DVD.

Y Gŵr Cadarn (The Strong Man) was written by an anonymous playwright from North Wales during the 16th century. Last year the play was presented to audiences for the first time in about 400 years.

Working closely with Dr Dylan Foster Evans, Senior Lecturer in the School of Welsh, Fulbright Scholar Dr Sarah Campbell prepared an edition of the play for publication. As part of that project, Dr Campbell and Ceri Elen, Welsh playwright and Creative Writing Tutor in the School, recreated the dramatic artefact and it was performed by the School of Welsh's Drama Company in the cemetery of St Teilo's Church in St Fagan's National History Museum on 26 June 2010.

Thanks to Ffilmiau Fflur the unique performance is now available on DVD. The recording also features a special introduction to the play by Dr Dylan Foster Evans.

For a copy of the DVD (cost £10), contact the School of Welsh on 029 2087 4843 or cymraeg@cf.ac.uk.

Children's literature sparks interest

Children's literature studies are going from strength to strength here at the School of Welsh since its establishment as an undergraduate module in 2007. It is an extremely popular module with over fifty students choosing to follow it this year. It is also possible to study the subject at postgraduate level: Awen Schiavone is currently enrolled on a part-time MPhil researching into adventure stories for children.

Dr Siwan Rosser, a lecturer at the School, specialises in children's literature, researching specifically into the development of the image of the child and concepts related to Welsh nationality and identity. Dr Rosser examined these themes in the context of early children's literature at a conference held in April at St Patrick's College, Drumcondra, Ireland. Her paper, 'Language, Culture and Identity in Welsh Children's Literature', will be published in a volume on children's literature and the Celtic languages.

Due to the School's expertise in this area, the Welsh Books Council invited Dr Rosser to nominate a student from the School to be a member of the adjudication panel for the 2011 Tir na n-Og Prize. The aim of this competition is to give recognition to the best books for children and young people, and to promote the buying and reading of books in Welsh. Lisa Sheppard, a postgraduate student currently finishing an MPhil in Creative Writing, was nominated and the authors Lleucu Roberts and Hywel Griffiths were declared the winners in a special ceremony at the 2011 Urdd Eisteddfod in Swansea.

The aim for the future is to build on the great interest amongst undergraduates and attract further students to research in this fascinating and important field.

For further information, contact
School of Welsh, Cardiff University, Humanities Building, Colum Drive, Cardiff CF10 3EU

Phone: 029 2087 4843
E-mail: cymraeg@cf.ac.uk
Website: www.cf.ac.uk/welsh

Newyddion Diweddaraf

o Ysgol y Gymraeg

Haf 2011

Prifysgol Caerdydd

Cardiff University

Y Gymraeg yng Nghaerdydd ar y brig o hyd



Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd sydd ar y brig ym Mhrydain eto eleni ar gyfer Astudiaethau Celtaidd, yn ôl arolwg diweddar yn *The Complete University Guide* (www.thecompleteuniversityguide.co.uk). Mae'r arolwg yn cymharu pob prifysgol yn y Deyrnas Gyfunol o safbwynt sawl maen prawf gwahanol, gan gynnwys boddhad myfyrwyr, asesiadau ymchwil, safonau mynediad, a'r rhagolygon ar gyfer graddedigion. Mae'r Gymraeg yng Nghaerdydd ar frig tabl yr Adrannau Astudiaethau Celtaidd drwy'r DG gyfan.

Dyma ymateb yr Athro Sioned Davies, Pennaeth Ysgol y Gymraeg: 'Rwyf wrth fy modd â'n safle ar frig y tabl am yr ail flwyddyn yn olynol – mae'n adlewyrchu gwaith caled ac ymroddiad staff a myfyrwyr yr Ysgol. Yr hyn sy'n rhoi boddhad arbennig yw'r sgôr uchel ar gyfer 'safonau mynediad' – rydym wedi codi ein gofynion derbyn bob blwyddyn a bellach rydym yn denu'r myfyrwyr gorau yn y wlad gan gynnig iddynt raglen radd heriol a chyffrous. Mae sgôr uchel arall am 'ragolygon ar gyfer graddedigion' yn adlewyrchu pa mor berthnasol yw ein darpariaeth gan brofi bod gradd yn y Gymraeg o Brifysgol Caerdydd yn cyfarfod ag anghenion y gweithlu. Yn ogystal â rhoi i'r myfyrwyr amrediad o sgiliau arbenigol ynghyd â sgiliau trosglwyddadwy, mae holl fyfyrwyr y flwyddyn olaf yn ymgymryd â chyfnod o brofiad gwaith sydd o'r budd mwyaf iddynt wrth edrych am swyddi; yn wir, mae sawl myfyriwr wedi cael cynnig swydd barhaol yn y sefydliad y bu'n ymweld ag ef.'

Buddsoddi yn y Cynllun Sabothol Cenedlaethol

Mae Ysgol y Gymraeg yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i fuddsoddi yn y Cynllun Sabothol Cenedlaethol ac yn edrych ymlaen yn fawr at barhau i gyfrannu at y prosiect.

Mae Leighton Andrews, Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Addysg a Sgiliau, wedi cymeradwyo mwy na £6 miliwn dros gyfnod o dair blynedd ar gyfer cyflwyno'r Cynllun gyda'r nod o wella safonau addysgu a dysgu mewn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg.

Bu Ysgol y Gymraeg yn rhan o'r cynllun peilot a gychwynnodd yn 2005, gyda thîm o diwtoriaid iaith profiadol yn cynnal cyrsiau ieithyddol i athrawon uwchradd a chynradd. Dywedodd Lowri Davies, un o'r tiwtoriaid, 'rwy'n gweithio ar y cynllun ers cychwyn y cyfnod peilot. Mae'n brofiad gwych cael gweithio gydag athrawon brwdfrydig a gweithgar; rwyf wedi cael fy synnu wrth weld pa mor ymroddedig ydynt i ddatblygu eu sgiliau ymhellach.'

Bydd yr arian yn sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyflwyno mewn rhagor o leoliadau ar draws Cymru a chydag amrywiaeth ehangach o gyrsiau a'r rheini ar sawl lefel. Dros y cyfnod, bydd 648 o ddarlithwyr, athrawon a hyfforddwyr yn cael manteisio ar gyfnod sabothol o'r gweithle er mwyn mireinio eu Cymraeg llafar ac ysgrifenedig, dysgu defnyddio terminoleg pwnc yn effeithiol yn ogystal â dysgu dulliau dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn hyderus. Bydd Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd yn cynnig darpariaeth ar lefel Mynediad, Sylfaen ac Uwch. Am ragor o fanylion, ewch at ein gwefan.

www.caerdydd.ac.uk/cymraeg

Y Gymraeg: Ennill sgiliau a swyddi

Yn y Gymru gyfoes, mae cyflogadwyedd yn ffactor pwysig iawn wrth i fyfyrwyr ddewis pa radd i'w hastudio ac ymhle. Ar ôl gadael yr ysgol mae myfyrwyr (a'u rhieni) am fod yn sicr y bydd buddsoddi mewn addysg uwch yn gam doeth at y dyfodol.

Yn ôl ystadegau yr Asiantaeth Addysg Uwch, mae 96% o'r rheini a raddiodd yn y Gymraeg yng Nghaerdydd yn 2009/10 wedi dod o hyd i swydd neu wedi symud ymlaen i astudio ymhellach. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae cyn-fyfyrwyr yr Ysgol wedi cael swyddi mewn llu o sefydliadau a chwmnïau amrywiol megis Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Yr Urdd, Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Llenyddiaeth Cymru, Boomerang, cwmnïau cyfieithu megis Trosol a Prysg, Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan, a Chanolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg.

Yng Nghaerdydd, caiff israddedigion y cyfle i elwa'n helaeth ar eu tair blynedd yma. Mae'r radd yn cynnwys y modiwl **Cymraeg y Gweithle**, sydd wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer anghenion y gweithle cyfoes. Dyma fodiwl heriol sy'n datblygu sgiliau ieithyddol ac yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr fynd allan i'r gweithle a chael profiad ymarferol o ddefnyddio'r Gymraeg. Gall y myfyrwyr hefyd ddewis o ystod eang o fodiwlau sy'n ymwneud â rhai proffesiynau er mwyn diwallu eu hanghenion penodol, megis **Cyfieithu Proffesiynol, Ysgrifennu Creadigol, Sgriptio, Cymraeg i Oedolion, Cynllunio Ieithyddol** a **Cyflwyniad i Astudiaethau Gwerin**.

Greg Snelgrove

"Fel rhan o'r modiwl **Cymraeg y Gweithle**, gwnes wythnos o brofiad gwaith gyda Chanolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful. Yn sgil y profiad hwnnw, penderfynais ddilyn gyrfa ym maes datblygu'r Gymraeg yn gymunedol, gan lwyddo i gael swydd lawn-amser fel Swyddog Maes i'r un Fenter. Mae'n swydd gyffrous iawn ac rwyf wrth fy modd yn hybu ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg mewn ardal sy'n agos iawn at y lle y cefais fy magu."

Betsan Williams

"Ar ôl astudio gradd yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd, cefais swydd fel Cyfieithydd dan Hyfforddiant gyda chwmni Prysg. Roedd yr hyn a ddysgais ar y cwrs, a'r modiwlau Cyfieithu a Chyfathrebu a Cymraeg y Gweithle yn benodol, yn sail gadarn imi ymgymryd â'r rôl hon. Chwe blynedd yn ddiweddarach rwyf bellach yn uwch-gyfieithydd yn y cwmni, ac wedi meithrin a mireinio'r sgiliau ieithyddol a ddysgais yn ystod fy ngradd."

Siân Teifi Morris

"Wedi imi ddilyn y modiwl **Cyflwyniad i Astudiaethau Gwerin** yn rhan o'm gradd cefais f'ysbrydoli i fynd ar brofiad gwaith i Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan. Mwynheais y profiad yn fawr iawn, yn enwedig cael siarad â'r curaduron a chlywed mwy am yr archifau a'r casgliadau eang sydd yno. Mwynheais gymaint fel fy mod wedi ymgeisio am swydd yn yr amgueddfa wedi imi raddio, gan symud ymlaen yn ddiweddarach i adran addysg yr amgueddfa. Rwyf yn yr adran honno ers blwyddyn a hanner bellach. Byddwn yn argymell dilyn y modiwl Cyflwyniad i Astudiaethau Gwerin i unrhyw un â diddordeb yn y diwydiant treftadaeth yng Nghymru."

Ffocws ar Ymchwil

Sulien Morgan

Mae Sulien Morgan yn dilyn cwrs PhD rhan-amser yng Nghanolfan Uwchefrydiau Cymry America, sydd wedi ei lleoli yn Ysgol y Gymraeg. Mae ei ymchwil yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng y Cymry yn yr Unol Daleithiau a chenedlaetholdeb yng Nghymru. Ar ôl graddio ym maes Gwleidyddiaeth Ryngwladol, a threulio cyfnod yn gweithio i Blaid Cymru, penderfynodd ddychwelyd i'r brifysgol i ymgymryd â gradd ymchwil a fyddai'n cyfuno ei ddiddordebau ym maes cenedlaetholdeb a rhyng-genedlaetholdeb. Ym mis Gorffennaf eleni cyflwynodd bapur mewn cynhadledd ym Mhrifysgol St Francis Xavier yn Nova Scotia, Canada ar y berthynas rhwng Plaid Cymru a Chymry America.

Robert Bevan

Mae diddordebau ymchwil Robert Bevan yn ymwneud â llithrigrwydd hunaniaethau lleol a chenedlaethol, y broses o 'aralleiddio' y diwylliannau a'r bobloedd hynny sydd y tu draw i'r ffin, a'r modd yr ymdrinnir â'r ffin ym mywyd bob dydd. Mae ei PhD, a ddechreuodd ym mis Ionawr 2010, yn edrych ar y modd y mynegir hunaniaeth trwy chwaraeon mewn tair tref ar y ffin: Y Gelli Gandryll, Croesoswallt a Berwick-upon-Tweed. Yn ôl Robert 'mae arbenigedd amlweddog staff yr Ysgol, ynghyd â'r cymorth ariannol a gefais er mwyn ymgymryd â gwaith maes, wedi bod yn hollbwysig'.

Mair Rees

Mae Mair Rees ar fin gorffen ei PhD o dan gyfarwyddyd y Dr Simon Brooks a'r Athro Sioned Davies. Teitl ei thraethawd ymchwil yw: *Y Llawes Goch a'r Faneg Wen: Delweddau o Feichiogrwydd, y Mislif a'r Corff Benywaidd Symbolaidd mewn Ffuglen Gymraeg gan Fenywod, 1948–2008*. Nod yr astudiaeth yw defnyddio persbectif ffeministaidd i archwilio sut y trafodir y ddau brofiad corfforol eiconig hyn, ynghyd â defnydd symbolaidd ehangach o'r corff benywaidd. Prif ddiddordeb Mair yw'r cysyltiadau pwerus sy'n bodoli rhwng y corff a chenedligrwydd, a'i nod yw datblygu'r syniadau hyn ymhellach yn y dyfodol.

Meithrin Cysylltiadau â Chanolfan Dysgu'r Wyddeleg

Ym mis Mawrth 2011 bu Dr Diarmait Mac Giolla Chríost, Darllenydd yn Ysgol y Gymraeg, yn ymweld â'r 'Ionad na Gaeilge Labhartha' sef y Ganolfan Dysgu'r Wyddeleg ym Mhrifysgol Corc. Fe'i gwahoddwyd i Gorc i fod yn rhan o dîm o arbenigwyr, ynghyd â'r Athro Liam Mac Mathúna, Pennaeth Ysgol yr Wyddeleg ac Astudiaethau Celtaidd, Coleg Prifysgol Dulyn a Pádraig Ó hAoláin, cyn-Brifweithredwr, Údarás na Gaeltachta, er mwyn adolygu gweithgarwch y Ganolfan Dysgu'r Wyddeleg.

Dr Mac Giolla Chríost oedd yr unig aelod o'r tîm o'r tu allan i Iwerddon; fe'i gwahoddwyd ar sail ei arbenigedd ym maes yr Wyddeleg yn ogystal â'i gyfraniad i brosiect ymchwil cyfredol sydd yn archwilio sut y dysgir y Gymraeg i oedolion. Prosiect a noddir gan Lywodraeth Cymru yw hwn; y llynedd derbyniodd Ysgol y Gymraeg (sy'n cynnwys Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg) grant o fwy na £300,000 i gynnal ymchwil yn y maes am gyfnod o ddwy flynedd.

Roedd yr ymweliad yn gyfle i Dr Mac Giolla Chríost drafod yn anffurfiol ffrwyth llafur y prosiect hyd yma, gan feithrin cysylltiadau a rhannu arfer da gyda'r Ganolfan Dysgu'r Wyddeleg ym Mhrifysgol Corc.

Y Gŵr Cadarn ar DVD

Mae perfformiad o un o ddramâu cynharaf y Gymraeg, *Y Gŵr Cadarn*, bellach ar gael ar DVD.

Gwaith dramodydd anhysbys o ogledd Cymru yw *Y Gŵr Cadarn*, sy'n dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg. Y llynedd cyflwynwyd y ddrama i gynulleidfaoedd am y tro cyntaf ers ryw 400 mlynedd.

Gan weithio'n agos â Dr Dylan Foster Evans, Uwch-ddarlithydd yn Ysgol y Gymraeg, bu'r Cymrawd Fulbright Dr Sarah Campbell yn paratoi'r ddrama ar gyfer ei chyhoeddi. Fel rhan o'r prosiect hwnnw, ail-grewyd y ddrama gan Dr Campbell a Ceri Elen, dramodydd Cymraeg a Thiwtor Ysgrifennu Creadigol yn yr Ysgol, ac fe'i perfformiwyd gan Gwmni Drama Ysgol y Gymraeg ym mynwent Eglwys Teilo Sant yn Amgueddfa Sain Ffagan ar 26 Mehefin 2010.

Diolch i gwmni Ffilmiau Fflur mae'r perfformiad unigryw hwnnw bellach ar gael ar DVD. Mae'r recordiad hefyd yn cynnwys cyflwyniad arbennig i'r ddrama gan Dr Dylan Foster Evans.

Os am gopi o'r DVD (pris £10), cysylltwch ag Ysgol y Gymraeg ar 029 2087 4843 neu cymraeg@caerdydd.ac.uk.

Llenyddiaeth plant yn ennyn diddordeb

Mae astudiaethau llenyddiaeth plant yn mynd o nerth i nerth yma yn Ysgol y Gymraeg ers ei sefydlu yn fodiwl israddedig yn 2007. Mae'n fodiwl hynod boblogaidd gyda mwy na hanner cant o fyfyrwyr wedi dewis ei ddilyn eleni. Mae modd astudio'r pwnc hefyd ar lefel ôl-raddedig: mae Awen Schiavone yn astudio'n rhan-amser ar gyfer MPhil ar lyfrau antur i blant ar hyn o bryd.

Mae Dr Siwan Rosser, darlithydd yn yr Ysgol, yn arbenigo ar lên plant, ac yn ymchwilio'n benodol i ddatblygiad delwedd y plentyn a chysyniadau yn ymwneud â chenedligrwydd a hunaniaeth Gymreig mewn llenyddiaeth plant. Bu Dr Rosser yn trafod y themâu hyn yng nghyd-destun llenyddiaeth gynnar i blant mewn cynhadledd yng Ngholeg San Padrig yn Drumcondra yn Iwerddon ym mis Ebrill. Bydd ei chyfraniad i'r gynhadledd honno, sef 'Language, Culture and Identity in Welsh Children's Literature', yn cael ei gyhoeddi mewn cyfrol ar lenyddiaeth i blant a'r ieithoedd Celtaidd.

Oherwydd arbenigedd Ysgol y Gymraeg, Caerdydd yn y maes hwn, gofynnodd Cyngor Llyfrau Cymru i Dr Siwan Rosser enwebu myfyriwr o'r Ysgol i fod yn aelod o banel beirniadu Gwobr Tir na n-Og 2011. Bwriad y gystadleuaeth hon yw gwobrwyo'r llyfrau gorau i blant a phobl ifainc a bod yn gyfrwng i hybu prynu a darllen llyfrau Cymraeg. Enwebwyd y fyfyrwraig ôl-raddedig Lisa Sheppard (sydd ar fin gorffen MPhil mewn Ysgrifennu Creadigol) a gwobrwywyd yr awduron Lleucu Roberts a Hywel Griffiths mewn seremoni arbennig yn Eisteddfod yr Urdd Abertawe a'r Fro 2011.

Y gobaith yn y dyfodol yw ymelwa ar y diddordeb mawr ymhlith myfyrwyr israddedig a denu rhagor o fyfyrwyr i ymchwilio i'r maes difyr a phwysig hwn.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Caerdydd CF10 3EU

Ffôn: 029 2087 4843
E-bost: cymraeg@caerdydd.ac.uk
Gwefan: www.caerdydd.ac.uk